



Ynglŷn â'r Teithiau Cerdded

Rheolir Fforest Fawr gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n gymysgedd hyfryd o goetir brodorol a choed conwydd.

Mae tair taith gerdded gylchol ar gael yn Fforest Fawr



Taith Burges: 1.1 milltir (1.76km) Gan ddilyn y marcwyr melyn, mae'r daith gerdded hon yn cymryd rhwng 45 munud ac awr i'w chwblhau.



Taith Syr Henry: 2.31 milltir (3.72km) Gan ddilyn y marcwyr coch, mae'r daith gerdded hon yn cymryd awr neu ddwy i'w chwblhau. Cadwch lygad allan am y Daith Cerfluniau sy'n cynnwys llawer o bethau diddorol i'r plant eu darganfod a golygfa hyfryd o'r mynyddoedd ar y diwedd!



Taith Treftadaeth Ddiwydiannol: 2.5 milltir (4km) Gan gychwyn ym maes parcio Fforest Fawr, dilynwch y marciau ffordd porffor. Mae'r daith gylchol yn cymryd tua 1 ½ i 2 awr i'w chwblhau gyda nodweddion ar hyd y ffordd: Ogofau'r Tair Arth, y Pwll Glas a'r Llwybr Cerfluniau.

Gwybodaeth am y Tir a Hygyrchedd

- Mae'r llwybrau'n gymysgedd o gerrig cywasgedig a thir cadarn
- Argymhellir i chi ddod ag esgidiau addas
- Mae'r teithiau cerdded yn arwain drwy dirweddau amrywiol gyda darn serth yn uniongyrchol i'r gogledd o Gastell Coch.
- Nid oes rhwystrau ar y llwybrau, ond mae un giât mochyn gyda mynediad i gerbydau symudedd canolig ym maes parcio Fforest Fawr.
- Cadwch lygad allan am farchogion oherwydd mae rhai o'r llwybrau'n croesi llwybrau ceffylau.
- Cofiwch y gallai fod yna byllau mwdlyd ar ôl tywydd gwael.
- Nodwch fod Taith Taf yn dilyn rhan o'r llwybr cerdded a'i fod yn llwybr a rennir.



Sut i Gyrraedd Yno

Codau GPS ar gyfer manau cychwyn y teithiau cerdded: Maes Parcio Fforest Fawr (GR 314167:183868) Maes Parcio Castell Coch (GR313098:182675)

Ar droed/beic: Dilynwch yr arwyddion ar gyfer Castell Coch o Dongwynlais i ddechrau'r daith o faes parcio'r castell neu parhewch ar hyd Heol y Fforest gan droi i'r chwith i'r ffordd fynediad sy'n mynd â chi i faes parcio Fforest Fawr. Mae byrddau gwybodaeth am y teithiau cerdded yn y ddau fan cychwyn.

Arybws: Mae'r safle bws agosaf tua 1km o'r castell ym mhentref Tongwynlais. Fe'i gwasanaethir gan wasanaeth 132 Stagecoach sy'n rhedeg bob 30 munud rhwng Caerdydd a Phontypridd. Ar ddydd Sul mae'r gwasanaeth yn rhedeg bob 60 munud. I gael rhagor o wybodaeth ewch i <http://www.traveline-cymru.info/>

Yn y car: Gadewch yr M4 wrth Gyffordd 32 sy'n arwain at yr A470 a dilynwch yr arwyddion ar gyfer Tongwynlais ac yna Castell Coch. Mae llefydd parcio ar waelod Heol y Fforest Road ac mae bwrdd gwybodaeth am y teithiau cerdded ym maes parcio Castell Coch. Fel arall, ewch yn eich blaen at faes parcio Heol y Fforest lle ceir bwrdd gwybodaeth arall.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu faterion eraill yn gysylltiedig â'r daith gylchol hon cysylltwch â Thim Hawliu Tramwy Cyhoeddus Cyngor Caerdydd ar 029 20785200 neu e-bost priffyrdd@caerdydd.gov.uk

I gael gwybodaeth am deithiau cerdded a gweithgareddau awyr agored eraill yng Nghaerdydd, ewch i wefan Awyr Agored Caerdydd. Gallwch lawrlwytho taflenni am y teithiau cerdded o'r wefan, neu maent ar gael ar gais yn www.outdoorcardiff.com

